Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Casnewydd

**Hartridge Farm Road**
**Casnewydd**
**NP18 2LN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Casnewydd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Casnewydd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 380 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 287 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 49 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 23.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 1.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Casnewydd yn gymuned gynhwysol gyda phwyslais cryf ar les a datblygiad disgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu diddorol mewn amgylchedd dysgu ysgogol a chynnes. Mae ymdeimlad cryf o deulu a pherthyn i gymuned wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Mae'r tîm gweithgar o athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau darpariaeth gyfoethog mewn cyd-destun cynhwysol a Chymreig.

Mae'r staff yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn hyrwyddo medrau llafar y disgyblion yn gyson. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn datblygu'n gadarn. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd, digidol ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol a chynhwysol sydd yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd a'u hardal leol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu a pharch tuag at eraill. Ar y cyfan, mae athrawon yn sicrhau rhediad bwriadus i wersi ac yn defnyddio ystod o adnoddau gweledol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Er hynny, ar adegau, mae tueddiad y staff i or-arwain yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau am eu dysgu.

Mae arweinwyr yn datblygu tîm effeithiol o staff sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n  hynod effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion a'u cymuned yn arbennig o dda. Mae'r ddarpariaeth lles yn nodwedd nodedig o'r ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Gymraeg Casnewydd yn gymuned addysgu gefnogol, gynhwysol a theuluol. Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae'n cydweithio'n agos â'r tîm arwain, y staff a'r llywodraethwyr i sicrhau profiadau dysgu diddorol ar gyfer y disgyblion. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gydweithio â holl gymuned yr ysgol sydd yn gosod lles bob aelod o'r gymuned wrth galon eu gweledigaeth.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono ef ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae ymddygiad ac ymrwymiad y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at fywyd yr ysgol yn dda iawn.

Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn ar gyfer rheoli adnoddau, sy'n cynnwys rhai ariannol. Mae arweinwyr yn gwario'r gyllideb yn ddarbodus ac yn defnyddio cyllid gwariant grantiau yn effeithiol, er enghraifft drwy ddarparu darpariaeth lles bwriadus i gefnogi cynnydd ym medrau a lles disgyblion.

**Ciplun 1 – Darpariaeth i gefnogi lles disgyblion**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi anghenion lles y disgyblion yn gryfder. Mae staff yn darparu gofal ac amrywiaeth o ddarpariaethau gwerthfawr sydd yn cefnogi'r disgyblion i fwynhau'r ysgol a gwneud cynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol ynghyd â'u medrau dysgu. Mae darpariaeth gartrefol y 'Cwtsh' yn cynnig cefnogaeth ddyddiol i ddisgyblion gyda'u lles ac iechyd emosiynol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn meithrin hunanddisgyblaeth ac agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon ar draws yr ysgol yn fodelau iaith effeithiol, gan ddangos disgwyliadau uchel. Maent yn hybu'r disgyblion i siarad Cymraeg a gwneud defnydd pwrpasol o'r iaith yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Er bod safonau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn is na'r disgwyl wrth gychwyn yn yr ysgol, mae llawer yn siaradwyr hyderus a medrus erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n effeithiol. Mae disgyblion yn defnyddio'u marciau cynnar yn gadarn, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau, gan ddangos ymwybyddiaeth effeithlon o atalnodi sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith yn briodol.

Mae athrawon yn paratoi ac yn cyflwyno ystod o dasgau mathemateg sy'n addas i oedran a gallu'r disgyblion. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd da. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. O ganlyniad, mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd, digidol ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol sydd yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd a'u hardal leol yn effeithiol, er enghraifft drwy ddysgu am hanes hawliau menywod trwy fynegi barn am Emmeline Pankhurst ac Arglwyddes Rhondda. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion drafod materion pwysig fel perthnasoedd ac amrywiaeth. Mae disgyblion yn dangos parch tuag at eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau.

Mae staff yn darparu amgylcheddau dysgu ysgogol a chartrefol sydd yn hyrwyddo lles a chynnydd y disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion gan arddangos eu gwaith ar furluniau ledled adeilad yr ysgol. Mae ystod eang o fannau tawel i'w defnyddio pan fo angen, gan gynnwys yr ystafell synhwyraidd sydd yn cael ei defnyddio'n effeithiol gan ddisgyblion er mwyn ymdawelu mewn achosion o bryder.

Ar y cyfan, mae athrawon yn sicrhau rhediad addas i wersi ac yn defnyddio ystod o adnoddau gweledol i gefnogi disgyblion. Mae hyn yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Ar y cyfan, defnyddir staff cynorthwyol yn effeithiol i ddarparu cefnogaeth werthfawr a bwriadus. Yn yr arfer orau, mae cynorthwywyr yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i hybu dyfalbarhad. Ar rai achlysuron, mae staff yn tueddu gor-arwain gweithgareddau dysgu ac mae hyn yn ei dro yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau am eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn cael ei chydlynu'n grefftus ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion penodol. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau a'u mannau cychwyn.

Mae arweinwyr yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth er mwyn gwella profiadau dysgu, cynnydd a lles disgyblion. Mae'r holl dîm yn cyfrannu at y gweithdrefnau hyn, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau wrth weithredu er mwyn datblygu'r ddarpariaeth. Mae gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn rhan annatod o'u gwaith.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol. Maent yn rhannu syniadau ac arfer effeithiol gyda'i gilydd yn bwrpasol ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ethos yr ysgol fel sefydliad sy'n dysgu. Mae arweinwyr yn annog staff i fyfyrio ar effaith y dysgu proffesiynol ar fedrau disgyblion yn fwriadus, er enghraifft drwy gynnal sgyrsiau proffesiynol cyson i drafod agweddau penodol o addysgu. Mae hyn yn arfogi staff i fyfyrio ar eu haddysgu ac i dreialu egwyddorion pellach. Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon ac maent yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i sicrhau presenoldeb da. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol â'r swyddog presenoldeb wrth ymateb i unrhyw achosion sy'n peri pryder, Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas hynod effeithiol â rhieni. Mae’r cydweithio a’r cyfathrebu parhaus yn hybu’r ysgol yn ei chymuned yn hynod lwyddiannus. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion a’i chymuned yn arbennig o dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi medrau a lles disgyblion. Er enghraifft, drwy gynnal gweithdai gyda rhieni a’r disgyblion, maent yn eu cefnogi i ddatblygu medrau rhifedd a gweithdai gwersi Cymraeg. Mae hyn yn nodwedd gref o’r ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  23/01/2025